**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4060 (CYLCHFAN ABERCANNAID YR A470 I GYLCHFAN PENTRE-BACH YR A4060, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG A CHYFYNGIAD CYFLYMDER DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu'r gweithlu a'r cyhoedd sy'n teithio tra bod gwaith yn cael ei wneud i Draphont Pentre-bach, ar gefnffordd yr A4060 neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith) a beicwyr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4060 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o 30mya ar y darn o gefnffordd yr A4060 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn bob amser pan nad yw'r gwaharddiad a ddisgrifir yn i. uchod yn weithredol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mehefin 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) rhwng 1 Mehefin 2025 a 7 Medi 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith a ailamserlennir ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
**Trafnidiaeth**
**Llywodraeth Cymru**

**THE A4060 TRUNK ROAD (A470 ABERCANAID ROUNDABOUT TO A4060 PENTREBACH ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND SPEED RESTRICTION) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984. The Order is necessary to safeguard the workforce and travelling public whilst works are carried out to the Pentrebach Viaduct, on or near the A4060 trunk road.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used for the works) and cyclists from proceeding on the length of the A4060 trunk road described in the Schedule to this Notice. The diversion routes are also described in this Schedule.

ii. impose a 30mph speed limit on the length of the A4060 trunk road described in the Schedule to this Notice at all times when the prohibition described at i. above is not in operation.

The Order will come into force on 1 June 2025. The temporary prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently overnight (20:00 to 06:00 hours) from from 1 June 2025 until 7 September 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before the start of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
**Transport**
**Welsh Government**

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A4060 o'i chyffordd â Chylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd â Chylchfan Abercannaid yr A470.

### Llwybrau Dargyfeirio

Bydd traffig yr A470 sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de sy'n dymuno cyrraedd yr A4060 drwy Gylchfan Abercannaid yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed, yna tua'r dwyrain i ailymuno â'r A4060 tua'r de drwy Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top yr A465.

Bydd traffig sy'n teithio tua'r de ar yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top, yna tua'r gorllewin ar hyd yr A465 i ailymuno â'r A470 wrth Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed.

Bydd traffig yr A465 sy'n dymuno ymuno â'r A470 tua'r de drwy fynd ar yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gorllewin i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed i ailymuno â'r A470.

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists and Temporary 30mph Speed Limit

The length of the A4060 Trunk Road from its junction with the Pentrebach Roundabout to its junction with the A470 Abercanaid Roundabout.

### Diversion Routes

A470 northbound and southbound traffic wishing to access the A4060 via the Abercanaid Roundabout, will be diverted north to the Cefn Coed Interchange Roundabout, then east to rejoin the southbound A4060 via the A465 Dowlais Top Interchange Roundabout.

Traffic travelling south on the A4060 will be diverted north to the Dowlais Top Interchange Roundabout, then west along the A465 to rejoin the A470 at the Cefn Coed Interchange Roundabout.

A465 traffic wishing to join the A470 southbound via the A4060, will be diverted west to the Cefn Coed Interchange Roundabout to rejoin the A470.